OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1701 (Cy.162)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*29 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 58(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru(**2**)

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

2. Mae'r swyddogaethau a nodir yn yr Atodlen yn swyddogaethau cymorth i deuluoedd at ddibenion Rhan 3 o Fesur 2010.

(**1**) 2010 mccc 1.

(**2**) Mae'r pŵer galluogi y gwnaed y Rheoliadau hyn odano wedi ei ddwyn i rym mewn perthynas, yn unig, â'r ardaloedd penodol a ragnodir yng Ngorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(Cychwyn) 2010 (O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87). Yr ardaloedd hynny yw ardaloedd awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2010

ATODLEN 1

Tabl 1

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant

Y Swyddogaeth	*Rhychwant*
a.2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (fel y bo'n gymwys drwy weithrediad a.28A o'r Ddeddf honno) (*Darparu Gwasanaethau Lles*)	I'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau (gan gynnwys cymorth, cwnsela neu gefnogaeth) i blant sydd mewn angen ("in need") at ddibenion adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac i'w teuluoedd, gan gynnwys cyflawni unrhyw asesiadau at y dibenion hynny.
a.117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (*Ôl-ofal*)	
a.17 ac Atodlen 2, rhan 1 o Ddeddf Plant 1989 (*Darparu gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill*)	
a.82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (*Cydweithrediad rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol*)	
a.192(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 15 iddi (*Awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol*)	

Tabl 2

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas ag oedolion

Y Swyddogaeth	*Rhychwant*
a.29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 a'r cyfarwyddiadau a wnaed odani (*Trefniadau lles*)	I'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau (gan gynnwys cymorth, cwnsela neu gefnogaeth) neu gyfleusterau i hybu lles personau dros 18 oed sy'n gymwys i gael gwasanaethau o dan yr adrannau hynny am eu bod yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, yn ddioddefwyr trais neu gamdriniaeth domestig, yn rhai a chanddynt hanes ymddygiad treisiol neu ymddygiad o gam– drin neu am eu bod yn rhai a chanddynt anhwylder meddwl, ac mae hyn yn cynnwys asesu'r angen am y gwasanaethau neu'r cyfleusterau hynny.
a.2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (*Darparu Gwasanaethau Lles*)	
a.117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (*Ôl-ofal*)	
a.6 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (*Asesiadau: personau â chyfrifoldeb rhiant*)	